Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pontyberem
Neuadd Goffa Pontyberem
Heol Nant y Glo
Pontyberem
Llanelli
Caerfyrddin
SA15 5HU

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2019**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pontyberem sydd yn cwrdd mewn ystafell yn Neuadd Goffa Pontyberem yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn 18 o blant rhwng 2 a 4 oed. Mae'n darparu sesiynau addysg y blynyddoedd cynnar rhwng 9:00yb a 12:00yp am 5 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad, roedd 8 plentyn yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.

Nid oes un plentyn wedi ei adnabod gan y lleoliad fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Daw tua hanner o'r plant o gartrefi sy'n siarad Cymraeg.
Mae'r lleoliad yn cyflogi tri aelod o staff cymwysedig amser llawn, gan gynnwys yr arweinydd. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd ym mis Chwefror 2018.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Hydref 2017 a chan Estyn ym mis Tachwedd 2011

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn
- medrau corfforol llawer o'r plant yn datblygu'n effeithiol
- bron pob plentyn yn hapus yn mynychu'r lleoliad ac yn mynd yn syth i'w gweithgareddau heb ffwdan
- ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau buddiol sydd yn ennyn diddordeb llawer o blant yn addas
- gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda'r plant sydd yn eu galluogi i ddysgu mewn awyrgylch gofalgar a chynhaliol
- gan y lleoliad ystod eang o adnoddau sydd o safon dda tu fewn i'r adeilad

Fodd bynnag:

- nid yw llawer o blant yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau llythrennedd Cymraeg
- nid yw'r lleiafrif o blant yn cymryd digon o gyfrifoldeb mewn perthynas â'u dysgu
- nid yw'r cynllunio yn sicrhau cyfleoedd priodol i'r plant gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ar draws y meysydd dysgu
- nid oes gan ymarferwyr bob tro ddisgwyliadau digon uchel o ddysgu'r plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth addas ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar sicrhau bod plant yn dysgu mewn awyrgylch gofalgar
- staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn awyddus i wella gwaith y lleoliad
- gan y lleoliad ystod berthnasol o weithgareddau hunanwerthuso sy'n eu galluogi i adnabod llawer o gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant
- arweinwyr yn dechrau defnyddio gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn gwella ychydig o flaenoriaethau
- gan y lleoliad ystod briodol o bartneriaethau sydd yn gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau ar gyfer plant
- gan y lleoliad nifer priodol o staff er mwyn darparu cwricwlwm cyfnod sylfaen diddorol i'r plant

Fodd bynnag:

- nid oes digon o ffocws ar gynllunio'n strategol i godi safonau ac nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr addysgu yn arwain yn ddigon pwrpasol at welliannau mewn safonau
- nid yw arweinwyr na'r person cofrestredig yn defnyddio'r trefniadau rheoli perfformiad neu arsylwadau uniongyrchol yn ddigon trylwyr i osod targedau heriol i wella perfformiad
- nid yw arweinwyr bob tro'n blaenoriaethu'r agweddau pwysicaf ar gyfer gwelliant yn ddigon effeithiol nac yn mynd i'r afael â nhw yn ddigon amserol

## Argymhellion

A1 Gwella medrau Cymraeg plant

A2 Sicrhau bod y drefn ddyddiol yn creu cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sydd dan gyfarwyddyd y plant a gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion er mwyn herio plant ar y lefel briodol

A3 Gwella'r cynllunio i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn systematig ar draws y meysydd dysgu

A4 Codi disgwyliadau ymarferwyr o ddysgu'r plant, yn enwedig wrth holi plant yn effeithiol

A5 Gwella trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu i adnabod y blaenoriaethau pwysicaf a chynllunio'n effeithiol i'w gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn bod angen gwelliant â ffocws ar y lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn briodol, er enghraifft wrth drafod stori'r Nadolig wrth gwblhau jig-so. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau cadarn fel arbrofi gyda gwrthrychau i weld os ydynt yn arnofio neu'n suddo yn y dŵr.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau llythrennedd yn gymwys. Mae gan lawer ymwybyddiaeth gadarn o'r iaith Gymraeg ac yn ymateb i gyfarwyddiadau yn briodol. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn ymuno â chaneuon cyfarwydd yn frwdfrydig. Mae'r lleiafrif yn dechrau defnyddio geirfa ac ymadroddion cyfarwydd yn eu chwarae gydag anogaeth oedolion, er enghraifft wrth enwi siapiau cyfarwydd yn y twb tywod. Fodd bynnag, nid yw llawer o blant yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau llafar o ystyried eu cefndiroedd ieithyddol, gyda'r rhan fwyaf yn tueddu troi i'r Saesneg wrth chwarae. Mae'r mwyafrif yn dangos diddordeb mewn deunyddiau darllen, yn dal llyfrau'r ffordd gywir ac yn troi tudalennau i ddilyn y stori yn addas. Mae'r lleiafrif yn arbrofi ag ystod o ddefnyddiau ac offer gwneud marciau yn gymwys mewn ychydig o ardaloedd, er enghraifft wrth ddylunio stamp Nadolig yn y swyddfa bost.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn gadarn. Mae llawer yn cyfrif nifer y plant sy'n bresennol hyd at 14 yn hyderus. Mae ychydig yn cyfrif gwrthrychau yn gywir gan nodi sawl gwrthrych o wahanol liwiau sydd yna wrth chwarae'n annibynnol. Mae ychydig iawn o blant mwy abl yn cyfrif hyd at 10 ac yn ôl yn hyderus. Gydag anogaeth, mae'r mwyafrif yn dechrau adnabod siapau dau ddimensiwn sylfaenol yn briodol. Mewn sefyllfaoedd ymarferol fel chwarae yn y dŵr, mae'r mwyafrif yn dechrau deall ystyr termau mathemategol yn addas, fel mawr a bach, llawn a gwag.

Mae medrau TGCh llawer o blant yn datblygu'n raddol. Gyda chymorth, maent yn defnyddio darganfyddwr metel i chwilio am wrthrychau yn y tywod. Mae ychydig yn dechrau rhoi cyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy yn addas o dan gefnogaeth oedolyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio eu medrau TGCh yn ddigon cyson nac i'r lefel briodol ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau corfforol llawer o blant yn datblygu'n llwyddiannus. Enghraifft effeithiol o hyn yw wrth i'r plant redeg yn gyflym, symud yn araf ac wrth ymestyn i greu siapiau gyda'u cyrff yn ystod sesiwn corfforol yn y neuadd. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda wrth ddewis deunyddiau yn annibynnol i greu llun Nadoligaidd a thrwy ddewis offerynnau cerddorol i greu cyfeiliant i'w caneuon Nadolig.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob plentyn yn hapus yn y lleoliad ac yn mynd syth i'w gweithgareddau heb anogaeth ar ddechrau'r sesiwn. Mae ganddynt berthnasoedd cynnes gyda'r

ymarferwyr ac mae'r rhan fwyaf yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf yn rhannu adnoddau'n dda gyda'u ffrindiau a, gan amlaf, yn ymddwyn yn dda wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, yn ystod sesiynau torfol, nid yw ychydig o blant yn canolbwyntio'n briodol ac yn aflonyddu a cholli diddordeb. Mae hyn yn amharu ar ddysgu plant eraill.

Mae mwyafrif o'r plant yn gwneud dewisiadau addas ynglŷn â'u dysgu, er enghraifft wrth ddewis ardaloedd i chwarae. Er hyn, mae lleiafrif yn tueddu aros mewn un ardal am gyfnod ac nid yw ychydig yn awyddus i symud o'r ardal er mwyn gweithio rhywle arall.

Mae llawer o blant yn dechrau cymryd cyfrifoldebau yn briodol, er enghraifft wrth wisgo cotiau i fynd allan yn y glaw ac wrth nôl eu bwyd a diod yn ystod amser byrbryd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar eu gallu i fod yn annibynnol. Mae'r mwyafrif yn awyddus i helpu yn ystod sesiynau ac yn cymryd cyfrifoldeb am dacluso ar ddiwedd y sesiwn, er nid yw'r lleiafrif yn cymryd rhan ac yn parhau i chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall pwysigrwydd golchi dwylo yn drylwyr ac yn annibynnol ar ôl chwarae tu allan a chyn bwyta bwyd ac yfed diod. Mae llawer yn dechrau deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau buddiol sydd yn ennyn diddordeb llawer o blant yn effeithiol. Maent yn cynllunio gweithgareddau dilys i ddechrau datblygu medrau plant ar draws yr holl ardaloedd dysgu yn addas. Maent yn dechrau ystyried llais y plant yn briodol wrth gynllunio themâu, er enghraifft drwy adael iddynt ddewis stori'r wythnos yn y llyfrgell leol ac wrth awgrymu ychydig o syniadau ar gyfer gweithgareddau. Yn ddiweddar, gwneir defnydd buddiol o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft trwy ymweld â'r Gerddi Botaneg a thrwy ymweliad yr heddlu yn ystod y thema ar bobl sy'n ein helpu.

Mae'r ymarferwyr yn ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolion a chyfleoedd i blant weithio'n fwy annibynnol. Yn ddiweddar, maent yn dechrau rhoi cyfleoedd perthnasol i'r plant atgyfnerthu eu dysgu blaenorol drwy gyfoethogi ardaloedd dysgu penodol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw ymarferwyr yn strwythuro'r drefn ddyddiol yn ddigon effeithiol i sicrhau digon o her i'r plant mewn gweithgareddau fel eu bod yn gallu gwneud y cynnydd mwyaf effeithiol yn eu dysgu.

Gwna ymarferwyr ddefnydd priodol o fframwaith y cyfnod sylfaen er mwyn adnabod ychydig o fedrau penodol i ddatblygu. Mae'r cynlluniau hyn yn dechrau adeiladu'n addas ar brofiadau a dysgu blaenorol y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon systematig i alluogi pob plentyn i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar a TGCh y plant ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft drwy weithgareddau corfforol yn y neuadd fel y cwrs antur a chyfleoedd i yrru beiciau a cherbydau. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth.

Digonol yn unig yw’r datblygiad ar gyfer yr iaith Gymraeg. Ceir cyfleoedd perthnasol i ddatblygu iaith y plant gyda’r defnydd o ganeuon ac ychydig o gyfleoedd addas i ddysgu geirfa a phatrymau iaith newydd i’r plant. Fodd bynnag, nid ymarferwyr yn cynllunio’n ddigon trwyadl i sicrhau bod plant yn adeiladu’n gynyddol ar eu medrau Cymraeg, yn enwedig mewn perthynas â’u cefndir ieithyddol. Mae’r cynlluniau ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a hanes Cymru yn datblygu’n bwrpasol, er enghraifft drwy fynychu eisteddfodau lleol a dathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen.

## Addysgu: Digonol

Yn gyffredinol, mae’r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth addas o athroniaeth y cyfnod sylfaen. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau pwrpasol i annog y plant i ddysgu. Enghraifft effeithiol o hyn yw’r defnydd o adnoddau fel gwisg Siôn Corn ac eira ffug wrth ailadrodd stori yn ystod sesiwn torfol. Mae gan ymarferwyr berthynas waith hyfryd gyda’r plant sydd yn eu galluogi i ddysgu mewn awyrgylch gofalgar a chynhaliol. Gan amlaf, mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad mewn modd sensitif a chadarn.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sy’n datblygu medrau plant yn addas ar draws yr ardaloedd dysgu. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel o beth mae’r plant yn gallu ei gyflawni ac nid ydynt yn teilwra gweithgareddau’n ddigon effeithiol i herio plant yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn holi plant yn briodol i asesu eu dealltwriaeth. Er hyn, mae’r cwestiynau yn tueddu bod yn rhy gaeedig i annog y plant i feddwl ac i ymestyn eu dealltwriaeth. Mae ansawdd Cymraeg y staff yn amrywiol ac nid ydynt yn modelu’r iaith yn ddigon cyson nac yn rhoi cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau’r llafar y plant. O ganlyniad, nid yw safonau llafar y plant yn datblygu’n ddigon cadarn.

Mae’r ymarferwyr wedi dechrau datblygu gweithdrefnau asesu priodol. Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae’r ymarferwyr yn dechrau defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio o arsylwadau ac asesiadau er mwyn cynllunio camau nesaf yn nysgu’r plant yn addas. Mae’r cyflwyniad o broffiliau ‘Taith Dysgu’ yn dechrau olrhain cynnydd plant yn effeithlon. Er hyn, newydd ddechrau y mae’r gweithdrefnau hyn ac mae’n rhy gynnar i fesur yr effaith ar y ddarpariaeth a safonau plant. Mae’r lleoliad yn dechrau darparu mwy o wybodaeth ddefnyddiol i rieni ynglŷn â dysgu eu plant drwy gynnig cyfleoedd iddynt fynychu’r lleoliad i drafod eu cynnydd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Yn ystod amser byrbryd, mae ymarferwyr yn annog y plant i ddewis bwydydd iachus ac yn darparu dŵr neu laeth i yfed. Gwneir defnydd effeithiol o’r cyfnod hwn i ddatblygu medrau cymdeithasol y plant drwy eu hannog i aros eu tro, nôl eu bwyd ac i arllwys eu diod yn annibynnol. Mae’r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i’r plant gymryd ymarfer corff yn rheolaidd, er enghraifft wrth fynd am dro yn yr ardal leol. Mae hyn yn annog y plant i fyw bywyd iachus yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn hybu datblygiad ysbrydol a moesol y plant yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn meithrin synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd y maent yn byw ynddo yn llwyddiannus, gyda chyfleoedd i blant arsylwi ar sut mae’r dail yn newid lliw a disgyn o’r coed yn ystod yr Hydref a chyda chyfleoedd i arsylwi ar gylch bywyd cywion. Mae ymarferwyr yn dechrau cynllunio cyfleoedd addas i hybu datblygiad diwylliannol y plant, er enghraifft trwy wrando ar wahanol offerynnau yn ystod sesiwn cerddoriaeth yn y llyfrgell yn ogystal â dysgu am ddathliadau gwahanol ddiwylliannau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i’r plant ddysgu am gynaliadwyedd drwy gyfleoedd i ailgylchu papur.

Mae’r trefniadau ar gyfer adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn datblygu’n addas. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol gydag asiantaethau eraill er mwyn cynorthwyo plant yn ôl yr angen, gan gynnwys rhaglen i wella iaith a llefaredd plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn ddigon hyderus wrth adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid ydynt yn gwneud defnydd digon effeithiol o dargedau unigol y plant sy’n deillio o asesiadau iaith a lleferydd, er enghraifft wrth gynllunio gweithgareddau.

Mae’r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae’r ymarferwyr yn cymryd gofal da o’r plant drwy’r adeg, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i greu ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol yn y lleoliad. Mae’r ymarferwyr yn ymdrechu’n llwyddiannus i sicrhau bod y plant yn teimlo’n rhan o gymuned gynhwysol. Maent yn adnabod anghenion y plant yn effeithiol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol. Mae’r lleoliad yn dechrau datblygu dealltwriaeth y plant o gydraddoldeb ac amrywiaeth ddiwylliannol yn raddol, er enghraifft gyda chyfle i’r plant ddysgu am yr ŵyl Diwali.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau sydd o safon dda tu fewn i’r adeilad. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn hygyrch i’r plant. Mae hyn yn meithrin annibyniaeth y plant yn gadarn wrth iddynt estyn a defnyddio adnoddau yn briodol.

Er bod yr amgylchedd tu fewn yn weddol gyfyng, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o’r lle i greu ardaloedd dysgu ysgogol i’r plant. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio’n berthnasol i ddatblygu medrau plant yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau ar draws amrywiaeth o ardaloedd, gydag ychydig o blant yn aros yn yr un ardal am gyfnod hir.

Mae gan y lleoliad fynediad i ardal allanol fechan. Yn ddiweddar, mae’r ymarferwyr wedi dechrau datblygu’r ardal hon yn bwrpasol. Maent yn dechrau cynllunio cyfleoedd priodol i gyfoethogi’r cwricwlwm a datblygu medrau’r plant yn raddol yn yr ardal hon. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr bob tro’n defnyddio’r ardal yn ddigon effeithiol i ddatblygu medrau’r plant yn llawn ac yn gydlynol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Digonol

Mae'r arweinydd, sydd yn gymharol newydd i'w rôl, yn datblygu ei hyder a medrau rheoli'n briodol. Mae ganddi weledigaeth addas ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar sicrhau bod plant yn dysgu mewn awyrgylch gofalgar. Mae'n rhannu hyn yn addas gyda'r staff, rhieni a'r pwyllgor rheoli. Mae'r staff yn gweithio'n agos fel tîm, ac maent yn ymwybodol o'r angen i wella agweddau ar y ddarpariaeth i gael mwy o effaith ar safonau plant. Maent yn cydweithio'n gydwybodol i sicrhau profiadau ysgogol i'r plant ac yn awyddus i wella'r lleoliad.

Mae'r staff yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n briodol at gynllunio ac asesu cyraeddiadau plant. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar gynllunio'n strategol i godi safonau ac nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr addysgu yn arwain yn ddigon pwrpasol at welliannau mewn safonau.

Er bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli perfformiad staff, nid ydynt yn ddigon trylwyr. Mae staff yn cael cyfleoedd perthnasol i fyfyrio ar eu perfformiad, ond nid yw arweinwyr na'r person cofrestredig yn defnyddio'r trefniadau'n ddigon trylwyr i osod targedau heriol i wella perfformiad. Mae hyn yn arwain at ddiffygion pwysig yn yr addysgu. Mae ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol ac yn manteisio ar amrywiaeth o hyfforddiant er mwyn gwella eu medrau, er enghraifft drwy arsylwi ar arfer dda mewn lleoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, gan gynnwys annog plant i fwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau eu bod yn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg.

Mae'r pwyllgor rheoli yn newydd i'w rolau. Mae'r pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig yn gefnogol i'r lleoliad. Mae ymweliadau achlysurol gan aelodau o'r pwyllgor yn datblygu eu dealltwriaeth o gryfderau a meysydd i'w gwella yn addas.

## Gwella ansawdd: Digonol

O fewn cyfnod cymharol fyr, mae'r arweinwyr wedi sefydlu ystod berthnasol o weithgareddau hunanwerthuso sy'n eu galluogi i adnabod llawer o gryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, maent yn defnyddio cyfarfodydd rheolaidd a mewnbwn yr athrawes ymgynghorol i adnabod llawer o flaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwneud defnydd o arsylwadau uniongyrchol er mwyn gwerthuso effaith y ddarpariaeth na'r addysgu ar safonau a medrau plant ar draws yr ardaloedd dysgu. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn adnabod nac yn mynd i afael ag agweddau pwysig, fel diffyg her yn yr addysgu.

Mae'r arweinydd wedi creu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â llawer o agweddau sydd yn deillio o'r gweithdrefnau hunanwerthuso. Er enghraifft, ar ôl adnabod yr angen i wella annibyniaeth y plant, mae'r ymarferwyr wedi cynllunio gweithgareddau penodol i wella'r agwedd hon. O ganlyniad, mae'r plant yn fwy annibynnol wrth wisgo eu cotiau ac yn ystod amser byrbryd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n blaenoriaethu'r agweddau pwysicaf ar gyfer gwelliant yn ddigon effeithiol, fel yr angen i wella medrau Cymraeg y plant a'r her yn yr addysgu.

Mae cyswllt priodol rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a'r cynllun gwella. Mae'r cynllun yn adnabod camau gweithredu a meini prawf llwyddiant addas, ac mae arweinwyr yn dechrau gwerthuso cynnydd yn erbyn targedau yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw'r terfynau amser yn ddigon penodol nac uchelgeisiol i wella'r ddarpariaeth a safonau plant yn ddigon cyflym. Mae argymhellion yn dilyn yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn agweddau i'w datblygu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan y lleoliad ystod briodol o bartneriaethau sydd yn gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau ar gyfer plant yn addas.

Mae'r rhieni yn gefnogol o waith y lleoliad. Mae'r lleoliad yn dechrau gwella'r cyfathrebu a'r cyswllt gyda'r rhieni, er enghraifft drwy wella'r wybodaeth sydd ar gael iddynt ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r lleoliad eleni. Maent yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i rieni ddod i drafod unrhyw bryderon a thrafod cynnydd eu plant drwy fod ar gael i rieni ar ôl y sesiwn unwaith yr wythnos.

Mae gan y lleoliad gysylltiad addas â'r ysgol gynradd leol. Mae'r lleoliad yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu'r berthynas ymhellach ac i gyfoethogi profiadau'r plant. Enghraifft effeithiol o hyn yw mynd â'r plant draw i'r ysgol i weld cywion yn deor o wyau fel rhan o'r gwaith thema.

Gwneir defnydd effeithiol o arbenigwyr i ddatblygu medrau'r plant, er enghraifft wrth asesu a datblygu medrau lleferydd ac iaith plant.

Mae'r lleoliad yn dechrau gwneud cysylltiadau buddiol â'r gymuned. Er enghraifft, maent yn mynd â'r plant i'r siop a swyddfa bost leol fel rhan o'u gweithgareddau. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned yn dda.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau defnyddiol â'r awdurdod addysg a Mudiad Meithrin. Mae arweinwyr yn derbyn cyngor a chefnogaeth reolaidd o'r athrawes ymgynghorol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn agweddau o'r arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a deilliannau plant. Er enghraifft, yn dilyn cyngor yr athrawes ymgynghorol, mae'r ymarferwyr yn dechrau datblygu gweithdrefnau arsylwi ac asesu defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gweithredu ar gyngor yn ddigon cyflym i wneud y gwelliannau angenrheidiol i'r ddarpariaeth a safonau plant.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad nifer priodol o staff er mwyn darparu cwricwlwm cyfnod sylfaen diddorol i'r plant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o'r staff er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r ymarferwyr yn datblygu'u dealltwriaeth o arferion y cyfnod sylfaen yn addas.

Mae pob aelod o staff yn manteisio ar hyfforddiant perthnasol i wella eu medrau. Er enghraifft, mae'r arweinydd wedi defnyddio hyfforddiant ar chwarae gyda blociau i ddatblygu'r ardal adeiladu sy'n rhoi cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu medrau datrys problemau addas. Mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt fynychu hyfforddiant fel cymorth cyntaf a hylendid bwyd yn sicrhau eu bod yn gallu gweithredu eu rôl yn addas.

Mae gan y lleoliad ystod eang o adnoddau o safon dda i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn briodol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o’r adnoddau i gynllunio profiadau ysgogol ar gyfer y plant tu fewn yr adeilad. Maent yn dechrau datblygu adnoddau yn yr ardal allanol yn briodol wrth ymestyn yr adnoddau sydd ar gael i’r plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o’r cyllid i ddatblygu blaenoriaethau, er enghraifft wrth ddechrau datblygu’r ardal allanol. Fodd bynnag, nid oes cyswllt clir rhwng unrhyw wariant â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu.

O ystyried deilliannau’r plant yn ogystal ag ansawdd yr addysgu a’r arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |